# Ymgynghoriad ynghylch newid enw'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

30 Mawrth 2017

Annwyl Syr/Madam

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

> ***Yr ymgynghoriad ar y cynnig i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru***
> *Mae Cynghorwyr o Gyngor Cymuned Penarlâg a Chyngor Cymuned Brychdyn a Bretton wedi trafod yr ymgynghoriad uchod yn ddiweddar. Mae'r ddau Gyngor wedi gofyn imi holi ynghylch y costau sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad hwn os gwelwch yn dda?*

Mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn ar y cynnig i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn £1,680. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan ddarparu gwybodaeth mewn fformat hygyrch. Yn yr achos hwn, darparwyd y ddogfen ymgynghori mewn fformat Hawdd ei Ddarllen am gost o £1,680.

Mae'r tîm sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad yn gyflogeion Comisiwn y Cynulliad ac yn gweithio ar amrywiaeth o dasgau a phrosiectau. Nid yw'n bosibl datgrynhoi eu costau gan nad yw staff yn cofnodi'r amser a dreulir ganddynt ar un elfen o'u gwaith, ac felly, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ac ni ellir ei darparu.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF